Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, Medi 26ain, 2007 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Richard Wallace, Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas, Cyng Dawn Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Ros Bellamy, Cyng Fran Murphy, Cyng Charlotte Leadbeater,
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Ymddiheuriadau: Cyng Pam Steane Price, Cyng Ieuan Gwyn, Mr Des Davies (Swyddog Technegol) Ymddiheurodd y Cyng Hugh Towns am fod yn hwyr, roedd yn hwyr am iddo fynychu cyfarfod arall.

Materion yr Heddlu : Croesawyd y Rhingyll Paul Lewis i'r cyfarfod yn dilyn ei benodiad i'r Dref. Roedd yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cyngor. Dywedodd y Maer ei fod yn falch i weld Swyddogion yr Heddlu yn ymweld ag eiddo trwyddedig gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Cof 148 / Medi / 07 Cofnodion Blaenorol
Cymeradwywyd Cofnodion o'r Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, Gorffennaf 25ain fel cofnod cywir gan gynnwys y newid canlynol.
Cof 124/Gorffennaf/07 ychwanegu – aelodaeth flynyddol o Un Llais Cymru -£209.
Roedd pawb o blaid.
Cynigiwyd gan y Cyng Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o'r Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ar ddydd Mawrth, Gorffennaf 31ain, 2007 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, Medi 12fed fel cofnod cywir, ac fe'i hargymhellwyd i'r Cyngor Llawn i'w dderbyn wedi cynnwys y newid canlynol
Cof 139/Medi/07 tynnu'r cymal 'i roi mwy o breifatrwydd i'r tŷ dan sylw.'
Cynigiwyd gan y Cyng Fran Murphy ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, Medi 12fed, 2007 fel cofnod cywir ac fe'u hargymhellwyd i'r Cyngor Llawn i'w derbyn.
Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 149 / Medi / 07 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol
Mewn perthynas â Chofnod 139/ Medi 07, cynigiodd y Cyng Roy Davies y dylid cynnwys y newid canlynol i'r sylw a wnaed mewn perthynas â'r gwyriad i lwybr troed Crug Manor - *Wrth ystyried unrhyw gais dylid ystyried dymuniad y Cyngor Tref ar gyfer gwella'r llwybr troed ar hyd y llwybr cyfan.*
Eiliwyd hyn gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
Mewn perthynas â Cofnod 147/Medi/07, adroddodd y Swyddog Cyllid bod y WCVA yn y broses o wneud newidiadau i gyflogau Staff.

Cof 150 / Medi / 07 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones fod yna wrthwynebiad gan rai trigolion lleol i wyro llwybr troed Crug Manor.
Gwahoddwyd y Maer gan y Cynghorydd Sir Jones i fynychu cyfarfod gyda Mr Gerwyn Thomas, CSC er mwyn ystyried gwaith sydd i'w wneud ym Mharc Penlan ar ddydd Llun, Hydref 1af am 3pm. Mae'r gwaith ar y gatiau addurniadol yn debygol o gostio tua £6000.
Mae'r gwaith ar y llwybr troed a'r 'bandstand' i'w wneud. Mae'r gwaith i ailadeiladu'r wal sydd wedi syrthio yn brosiect sylweddol. Awgrymodd y Cyng Charlotte Leadbeater efallai y gallai myfyrwyr o Goleg Sir Gâr wneud hyn fel rhan o'u cwrs.
Dywedodd y Cynghorydd Jones y gallai hwn fod yn brosiect allai ei gynnwys fel rhan o'r Prosiect Tywi'r Oesoedd. Mae arweinydd y Prosiect, Eleri Davies, yn cynnal y cyfarfod nesaf yng Nghwmifor ar ddydd Iau, Hydref 4ydd am 9.30am.

Cof 151/ Medi/ 07 I Ystyried Ceisiadau Cynllunio E/16925 a E/16926

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i wneud y sylwadau canlynol
Dim gwrthwynebiadau. Byddai adeiladu tai bychain fel y rhain yn annog rhai sydd am brynu eiddo am y tro cyntaf. Hefyd fe fyddai'r datblygiad yn gwella'r olygfa i drigolion Teras Tomos yn fawr.
Cynigiwyd gan y Cyng Fran Murphy ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy

Cof 152/ Medi / 07 I Ystyried Gohebiaeth lle mae angen ateb

1. Llythyr ymddiswyddo gan y Cynghorydd Pam Steane Price. Derbyniwyd hwn gyda siom a chynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid anfon llythyr o ddiolch at y Cyng Steane Price am ei gwaith caled. Bydd Adran Gwasanaethau Etholiadol CSC hefyd yn derbyn y wybodaeth. Eiliwyd hyn gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
2. Llythyr gan Mr Christopher Parish yn gofyn am ystyried ei gyfethol fel Cynghorydd er mwyn llanw lle gwag yn ward y Castell. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns fod y Cyngor yn derbyn ei gais. Eiliwyd hyn gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid. Estynnir gwahoddiad i Mr Parish i fynychu'r cyfarfod nesaf.
3. Llythyr oddi wrth Mr Geraint Price. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Mr Price yn nodi pe byddai'r Cyngor yn derbyn cais am newid defnydd, yna bydd y Cyngor yn ystyried ei lythyr.
4. Llythyr oddi wrth Fountain Art mewn perthynas â Gwesty'r Castell. Cytunwyd y dylid anfon y llythyr ymlaen at y Rhingyll newydd gyda'r Heddlu er gwybodaeth. Y Clerc i ateb y sawl wnaeth anfon y llythyr, yn nodi fod y Cyngor, er ei fod yn ymwybodol o'r sefyllfa ond yn methu â gweithredu'n uniongyrchol, ond fod y sefyllfa'n cael ei fonitro.

5. Yr Ymddiriedolaeth Ddinesig yn atgoffa'r Cyngor o'r cytundeb sy'n caniatáu iddynt gynnal cyfarfodydd yn Neuadd y Sir. Gofynnwyd i'r Clerc ateb yn nodi fod y Cyngor yn ddiolchgar am gefnogaeth yr Ymddiriedolaeth. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn llunio polisi gosod newydd ar y cyd â Chyfarwyddwr newydd Cambria. Yn y cyfamser bydd yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth gydymffurfio â'r trefniadau canlynol :
   i) Fe ddylent wneud eu cais i'r Clerc bedair wythnos cyn y cyfarfod a fydd yn cysylltu â Cambria i wneud y trefniadau.
   ii) Bydd disgwyl i'r Ymddiriedolaeth Ddinesig ddangos tystysgrif o atebolrwydd cyhoeddus.
   iii) Yr unig bryd y gellir cynnal cyfarfodydd wedi 5pm yw os oes yna ddeilydd allwedd ar gael.

   Anfoner llythyr tebyg at y Gymdeithas Gefeillio.

6. Cydnabyddiaeth gan Anne Thomas, Adain Briffyrdd LlCC, yn nodi cais y Cyngor i'w cynnwys yng nghamau cyntaf prosiect y Ffordd Osgoi.
7. Ateb gan Rhodri Glyn Thomas AC yn gofyn am gael pob gohebiaeth parthed y Ffordd Osgoi.
8. Glenys Moreno, Canolfan Iaith Fusnes yn rhoi dyfynbris o £180 yr iaith am gyfieithu testun taflen treftadaeth y Dref. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns fod yn Cyngor yn prynu'r cyfieithiadau yn y Ffrangeg, Iseldireg a'r Almaeneg i'w defnyddio yn y dyfodol. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
   Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Phil Waite o Cambria am amcangyfrifon o'r costau argraffu.
9. Adroddiad gan 'Caron Promotions' mewn perthynas â dosbarthu'r taflenni treftadaeth. Bydd y Clerc yn cysylltu â hwy er mwyn derbyn costau dosbarthu'r taflenni yng Ngwanwyn 2008.
10. Llythyr gan Mr T.Lloyd mewn perthynas â hanes y tŷ yn Teras yr Abaty. Mae'r Cyng Roy Davies yn barod i gwrdd â Mr Lloyd i drafod cynnwys y tŷ yn yr Archwiliad Treftadaeth.

Cof 153/Medi/07 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. LlCC – dogfen ymgynghorol – Cymuned a Rennir. Clerc i ofyn am ragor o gopïau.
2. LlCC – ymgynghorol – canllaw strategol Cymunedol diwygiedig. Clerc i ofyn am ragor o gopïau.
3. Rhybudd o gyfarfod Rhwydwaith Cymunedol 28.2.08. Nodwyd.
4. Un Llais Cymru – Rhybudd o gynigion i'w trafod yn y CBC ar 13.10.07.
5. Tystysgrif CSC am Gwblhau'r gwaith adnewyddu ar Neuadd y Sir.
6. Mr John McEvoy – copi o lythyr a anfonwyd at Mrs Needham.
7. Cymdeithas Gefeillio Llandeilo – manylion y trefniadau Gefeillio ar gyfer 19-24ain Awst.
8. Llythyr oddi wrth Daphne Davies yn awgrymu'r angen am gyfeirlyfr busnes i'r Dref. Nodwyd.
9. Cylchlythyr FCFCG. Nodwyd.
10. E bost gan Mr Terry Norman mewn perthynas â chyfleusterau i'r anabl yn y Dref.

Cof 154/ Medi/ 07 Materion Ariannol.

1 Anfonebau i'w Talu

Orchardweb (parth ac adnewyddu'r gwesteiwr)	£ 197.39
CAVS (tanysgrifiad blynyddol)	£ 30.00
WCVA – Gweinyddiaeth Awst / Medi.	£ 35.54
WCVA- Cyflogai Awst /Medi.	£ 207.40
Hugh Gwynne (Chwynnu blaen Neuadd y Sir)	£ 52.88
Hugh Gwynne (cynnal a chadw blynyddol ar y llwybr troed)	
	£1,163.25
BT (ffôn swyddfa)	£ 68.17

Penderfynwyd talu'r rhain, a chynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

2. Materion Ariannol Eraill – Balansau Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol LTC (26.9.07) £ 13,363.38

Cof 155/ Medi /07 Yr Ardd Gymunedol.
Gan nad oedd y wybodaeth angenrheidiol sy'n ofynnol i lunio adroddiad ar gael i'r Peiriannydd Sifil, mae'r eitem wedi'i gohirio tan gyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.

Cof 156/ Medi / 07 Adroddiad y Maer
Anfonodd y Maer Cyng Richard Wallace adroddiad o'r digwyddiadau a fynychwyd ganddo ar ran y Cyngor.

Cof 157/ Medi / 07 Adroddiad y Wefan.
Gofynnodd y Cyng Fran Murphy i bawb sydd heb anfon eu cyfraniadau eu hanfon i mewn yn electronig at y Clerc, cyn gynted â phosib. Adroddodd y Clerc ar e byst a dderbyniodd yn llongyfarch y Cyngor ar ei wefan.

Cof 158/ Medi / 07 Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt.
Adroddwyd fod y rhaglen ar gyfer y digwyddiad ar Dachwedd 2il yn barod i'w argraffu erbyn dechrau Hydref. Mae baner newydd i'w harchebu, gan logi PA a Generadur. Bydd y Swyddog Cyllid yn sicrhau fod polisi yswiriant ar gyfer y digwyddiad yn ddilys.
Y Clerc i anfon llythyron at y Round Table ac Ambiwlans St Ioan yn gofyn am eu cefnogaeth. Byddant yn gofyn i'r Clwb Rygbi am 10 stiward.
Gofynnwyd i'r Cynghorwyr helpu i ddosbarthu rhaglenni o amgylch y Dref. Bydd y Clerc yn dod ag anfonebau ac y bydd y Cyng Colin Jenkins a'r Cyng Edward Thomas yn eu dosbarthu i'r hysbysebwyr. Y ffi mynediad fydd £2 i oedolion a £1 i blant. Bydd y gatiau yn agor am 5.30pm gyda'r arddangosfa i ddechrau am 7pm.

Cof 159/ Medi / 07 Adroddiad yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig
Adroddodd y Swyddog Technegol fod y bracedi wedi cyrraedd ac y bydd y contractwr yn dechrau eu gosod cyn bo hir. Dylai'r holl drefniadau gael eu cwblhau erbyn cynnau'r goleuadau ar 30ain Tachwedd.

Cof 160 / Medi/ 07 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cadarnhawyd dyddiadau'r cyfarfodydd ym mis Rhagfyr fel :
Cyfarfod y Gyllideb ar 5ed Rhagfyr am 7pm
Cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 12fed Rhagfyr am 7pm

Cynhelir Parti Nadolig y Maer yn yr Hen Fic ar ddydd Sadwrn, 8fed Rhagfyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30pm